

ROCP 49, Archwilio Cymru (Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru)

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Adolygiad o flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd | Review of the Committee's priorities for the Sixth Senedd

Ymateb gan Archwilio Cymru (Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru) | Evidence from Audit Wales (Auditor General for Wales and Wales Audit Office)

Eich barn chi

1. Beth yw'ch barn chi am dair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor: Newid Hinsawdd; Cymunedau Cynaliadwy; a Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol?

Fel yn ein hymateb ym mis Medi 2021, o ystyried ein cylch gwaith ni fyddai'n briodol i ni wneud sylwadau ar flaenoriaethau cymharol i'r Pwyllgor.

Fodd bynnag, fel themâu troswaol, ac er nad ydynt o reidrwydd yn annibynnol ar ei gilydd, mae'n ymddangos bod y tair blaenoriaeth y mae'r Pwyllgor wedi'u nodi yn darparu ar gyfer sylw eang ac amrywiol i faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith cyffredinol y Pwyllgor, yn amodol hefyd ar ystyried meysydd lle mae posib gorgyffwrdd ar bynciau penodol gyda phwyllgorau eraill.

Mae Archwilio Cymru ei hun wedi nodi 'Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur' fel un o bedair thema ar gyfer ei raglen waith archwilio. Gweler: Rhaglen waith i'r dyfodol | Archwilio Cymru.

2. I ba raddau y mae tair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor yn dal yn berthnasol, o ystyried y datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a welwyd ers i'r blaenoriaethau gael eu pennu ar ddechrau'r Chweched Senedd?

Dim sylw pellach yma.

3. Beth yw'ch barn chi am y blaenoriaethau manwl/rhaglen waith amlinellol ar gyfer Blynnyddoedd 3 i 5 o'r Chweched Senedd (a nodir yn ei adroddiad, Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd)?

Dim sylw pellach yma.

4. I ba raddau y mae blaenoriaethau manwl/rhaglen waith amlinellol y Pwyllgor yn dal yn berthnasol, o ystyried y datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a welwyd ers iddynt gael eu pennu ar ddechrau'r Chweched Senedd?

Dim sylw pellach yma.

5. A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â blaenoriaethau/rhaglen waith/ffyrdd o weithio'r Pwyllgor yr hoffech roi sylwadau arnynt?

Rydym yn croesawu'r cyfle i friffio'r Pwyllgor ar ganfyddiadau ein gwaith ar barodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer sero-net erbyn 2030. Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â thîm clericio'r Pwyllgor ynghylch ein rhaglen waith a'r allbynnau ohoni a allai fod yn berthnasol i waith y Pwyllgor. A byddwn yn myfyrio ar gynlluniau'r Pwyllgor wrth i ni benderfynu ar flaenoriaethau ein rhaglen waith ein hunain.

Byddwn hefyd yn parhau i fonitro unrhyw ymgynghoriadau Pwyllgor yn y dyfodol i ystyried a oes deunydd perthnasol i'w rannu o'n gwaith cenedlaethol, ond hefyd o'n gwaith archwilio lleol. Er enghraifft, pe bai'r Pwyllgor yn bwrw ymlaen ag unrhyw waith pellach ar wasanaethau cynllunio, mae'n debygol y bydd deunydd perthnasol o waith archwilio lleol diweddar i dynnu arno.

Er nad yw o reidrwydd yn gynhwysfawr, rydym wedi gwneud sylwadau isod ar rai materion penodol sy'n deillio o waith diweddar, ein gwaith ar y gweill, neu waith dangosol yn y dyfodol, a allai fod yn berthnasol i gynlluniau Blwyddyn 3 i 5 y Pwyllgor.

6. Unrhyw beth arall?

- Rheoli perygl llifogydd: Cyhoeddom Lun o Reoli Perygl Llifogydd ym mis Rhagfyr 2022 a oedd yn edrych ar sut mae rheoli perygl llifogydd yn gweithio yng Nghymru a'r heriau sy'n wynebu'r sector. Gwnaethom nodi yn yr adroddiad y byddwn yn ystyried ailedrych ar reoli perygl llifogydd yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf i weld pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru, CNC ac awdurdodau lleol yn ymateb i'r materion a nodwyd yn adolygiad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol o adnoddau a'r heriau ehangach sy'n wynebu'r sector llifogydd. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw gynlluniau pendant ar hyn o bryd, a byddai unrhyw waith pellach yn ystyried gwaith adolygu parhaus arall ar y pwnc hwn, gan gynnwys gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.
 - Dulliau o gyflawni sero net ledled y DU. Bydd yr adroddiad hwn, sydd i fod i gael ei gyhoeddi'n fuan, yn nodi deddfwriaeth, polisi, strategaeth, llywodraethu a threfniadau monitro llywodraethau'r DU a datganoledig sy'n berthnasol i gyflawni
-

allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net. Rydym wedi gweithio arno ar y cyd â chymheiriaid o gyrff archwilio eraill y DU.

- Adfywio Brownfield. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi adroddiad, i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn galendr, a fydd yn archwilio materion yn ymwneud ag adfywio tir llwyd yng Nghymru.
- Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau astudiaeth sydd wedi edrych ar y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi adroddiad drafft i'w gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Rydym hefyd wedi cwblhau gwaith archwilio lleol ar arallgyfeirio incwm ac wedi penderfynu cyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau hynny, eto erbyn diwedd y flwyddyn galendr.
- Teithio llesol. Gyda'r bwriad o gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2024, rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith a fydd yn asesu a yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i gyflawni ei huchelgeisiau teithio llesol. Bydd y gwaith hwn yn adlewyrchu, yn rhannol, ar faterion sy'n codi o adroddiad Grŵp Trawsbleidiol Senedd Cymru ym mis Mehefin 2022.
- Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth. Rydym yn bwrw ymlaen â rhywfaint o gynllunio cychwynnol ar gyfer gwaith a fydd yn ystyried, ar lefel uchel, sut mae ein cyrff a archwilir yn ymateb i fioamrywiaeth a gwytnwch dyletswydd ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch ymchwil a datblygu ehangach a allai arwain at allbynnau eraill. Nid ydym eto wedi cadarnhau'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

Rydym hefyd yn cynllunio adolygiad mwy penodol i archwilio camau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cymryd o amgylch safleoedd daearol, dŵr croyw a/neu warchoddedig morol. Bydd y gwaith yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio'n benodol ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym eto wedi cadarnhau'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn. Mae'n dilyn gwaith archwilio lleol diweddar yn Cyfoeth Naturiol Cymru a archwiliodd ei broses ar gyfer gosod amcanion llesiant.

- Cynllunio cyfalaf a rheoli rhaglenni - Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn cynllunio gwaith a fydd yn ystyried dull strategol cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni (yn hytrach na cheisio profi effeithiolrwydd pob agwedd ar fuddsoddiad cyfalaf a seilwaith). Bydd yn cynnwys ystyried cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym eto wedi cadarnhau'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

- Economi gylchol a rheoli gwastraff. Fe wnaethom dynnu sylw yn ein hymateb yn 2021 i'r gyfres o adroddiadau a gyhoeddwyd gennym ar reoli gwastraff yn 2018-19. Ar hyn o bryd rydym yn bwrw ymlaen â rhai ymholiadau gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gadarnhau maint y camau a gymerwyd mewn
-

ymateb i argymhellion yn yr adroddiadau hynny ac i fyfyrion ar ddatblygiadau arwyddocaol eraill. Nid ydym eto wedi penderfynu a fydd hyn yn arwain at allbwn ffurfiol a gyhoeddwyd, ond os bydd y Pwyllgor yn bwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn, yna byddwn yn chwilio am gyfleoedd i rannu canfyddiadau.

Mae ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 yn nodi nifer o bynciau dangosol eraill ar gyfer gwaith i'w dechrau yn 2024-25 neu 2025-26 a allai fod yn berthnasol i gylch gwaith a bwriadau'r Pwyllgor. Nid ydym wedi gwneud unrhyw ymrwymiadu pendant i'r gwaith hwn eto a byddwn yn ailedrych ar y cynlluniau dangosol hyn yn ystod gweddill 2023-24. Fodd bynnag, byddwn yn tynnu sylw at:

- net sero. Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer dilyn a/neu ehangu ar ein hadroddiadau ym mis Gorffennaf 2022 ar barodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero-net erbyn 2030.
- Darparu trafniadaeth. Gan adeiladu ar ein gwaith presennol ar Deithio Llesol, byddwn yn myfyrion ar gyfleoedd i ystyried meysydd cyflawni allweddol eraill mewn perthynas â chynllun cyflawni trafniadaeth cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Datgarboneiddio tai. Rydym wedi nodi hyn fel pwnc y gallwn edrych arnon ni ein hunain, gan archwilio cynnydd ar draws gwahanol ddeiliadaethau a chyflawni ac effaith cyllid cysylltiedig Llywodraeth Cymru.
- Strategaeth Ddigidol i Gymru. Yn dilyn gwaith arall – gan gynnwys ein hadroddiad ym mis Mawrth 2023 ar gynhwysiant digidol a gyffyrddodd â buddsoddiad seilwaith, gwaith ar seiberwydwnch a gwaith archwilio lleol arall gan gynnwys adolygiad cyfredol o drefniadau strategaeth ddigidol mewn llywodraeth leol – efallai y byddwn yn archwilio materion eraill sy'n berthnasol i'r chwe 'chenhadaeth' yn y strategaeth ddigidol.
